# Asesiad o Effaith ar yr Iaith Gymraeg

## ar gyfer ffrwd waith fframwaith canlyniadau cenedlaethol y prosiect fframwaith gwella newydd.

**Ionawr 2015**

**ISBN: 978-1-4734-4360-0**

# Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

| | |
|---|---|
| **Teitl**: Fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth | **Rhif Cyfeirnod yr Asesiad** *(I'w lenwi gan Uned y Gymraeg)*: |
| **Enw'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen**: | Huw Jones |
| **Dyddiad**: | 16/01/15 |
| **Arweinydd polisi**: | Amira Irshad |
| **Manylion cyswllt:** | huw.jones@wales.gsi.gov.uk; Est: 5833<br>amira.irshad@wales.gsi.gov.uk; Est: 6944 |

**Math o Raglen/Prosiect**

- ☒ Polisi
- ☒ Deddfwriaeth
- ☐ Grant
- ☐ Newid busnes
- ☐ Seilwaith
- ☐ Adeiladu, Cyfalaf
- ☐ TGCh
- ☐ Arall (Nodwch isod)
- ☒ Prosiect neu raglen
- ☐ Ymchwil, gwerthusiad
- ☐ Gwasanaethau
- ☐ Contractau, tendrau

**Costau: Beth a ragwelir y bydd cost oes gyfan y rhaglen/prosiect?**

Os yn llai na £25k, nid oes angen Asesiad llawn bob tro (gweler y canllawiau).

Mae'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol yn rhan o'r ddeddfwriaeth i drawsnewid y ffordd y darperir gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru drwy Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Nid oes costau'n gysylltiedig â rhoi'r rhaglen waith hon ar waith.

Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Ddeddf a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi bod disgwyl i fanteision rhoi'r Ddeddf ar waith, yn gyffredinol, wrthbwyso'r costau ychwanegol o wneud hynny.

| O dan £25k | £25 - £49k | £50 - £249k | £250k - £1miliwn | Dros £1miliwn |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**O'r uchod, a oes unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r iaith Gymraeg?**

| |
|---|
| Nid oes unrhyw gostau yn uniongyrchol gysylltiedig â'r iaith Gymraeg ar hyn o bryd. |
| **Pa mor hir y disgwylir i'r rhaglen/prosiect redeg?** |

| Hyd at 1 flwyddyn | Hyd at 2 flynedd | Hyd at 5 mlynedd | Hyd at 10 mlynedd | Dros 10 mlynedd | Anhysbys |
|---|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ |

**Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect:**

Ebrill 2013: Cyhoeddi datganiad llesiant drafft ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth;

Mehefin 2014: Fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth – cyhoeddi dogfen weithio;

Tachwedd 2014 – Chwefror 2015 – Ymgynghoriad cyhoeddus ar roi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar waith, gan gynnwys y cod ymarfer mewn perthynas â Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol, gan gynnwys y ddyletswydd i hyrwyddo llesiant).

Mis Chwefror i fis Ebrill 2015: Ymgynghoriad cyhoeddus ar y cod ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad awdurdodau lleol mewn perthynas â'u swyddogaethau gwasanaethau cyhoeddus o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru);

Haf 2015: Adnewyddu a chyhoeddi'r dangosyddion canlyniadau cenedlaethol (bob blwyddyn wedi hynny);

Haf 2015: Gosod y cod ymarfer gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

Ebrill 2016: Cychwyn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Gosod y datganiad llesiant gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

Ebrill 2016: Awdurdodau lleol yn casglu mesurau perfformiad newydd ar gyfer y flwyddyn 2016-17.

Mai 2017: Adrodd cenedlaethol ar fesurau perfformiad (bob blwyddyn wedi hynny).

## CAM 1: CYNLLUNIO

**Beth yw nodau ac amcanion y polisi? Beth yw'r canlyniadau a ddymunir/beth sy'n angenrheidiol gan y rhaglen er mwyn iddi fod yn 'llwyddiant'?**

Nodau ac amcanion:

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: fframwaith gweithredu[1] yn amlinellu'r heriau y mae gwasanaethau cymdeithasol yn eu hwynebu dros y degawd nesaf ac yn rhestru blaenoriaethau gweithredu Llywodraeth Cymru. Mae'r papur yn cyflwyno'r Fframwaith Gwella Newydd i gyflwyno rhai o'r camau gweithredu hyn, gan gynnwys rhaglen bolisi a deddfwriaeth er mwyn gwneud hynny.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd ar unrhyw berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf i geisio hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Mae'r Ddeddf yn nodi'r diffiniad o lesiant ac yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi datganiad o'r canlyniadau llesiant i'w cyflawni.

Nod y polisi hwn yw deddfu ar hawliau a chyfrifoldebau pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Mae gan bawn, yn oedolion ac yn blant, hawl i godi eu llais fel unigolion ac fel dinasyddion er mwyn dylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, a chymryd rheolaeth ar eu bywydau beunyddiol. Bydd y sector gofal cymdeithasol yn defnyddio'r datganiad llesiant i gynllunio a darparu gwasanaethau gyda phobl. Bydd hyn yn elfen bwysig o symud at ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y bobl, y canlyniadau y maen nhw eisiau eu cyflawni, a rhoi mwy o lais a rheolaeth iddynt.

Mae Adran 6 y Ddeddf yn rhoi dyletswyddau cyffredinol ar unrhyw berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf; mae hyn yn cynnwys dyletswydd i ystyried nodweddion, diwylliant a chredoau unigolion, gan gynnwys, er enghraifft, iaith. Mae hyn hefyd yn cynnwys dyletswydd i ystyried pwysigrwydd rhoi cymorth priodol i alluogi unigolion i gyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio arnynt cyn belled ag sy'n briodol yn yr amgylchiadau.

Mae'r Prosiect Gwella Newydd yn cynnwys ffrwd waith i gyflwyno'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Er mwyn cyflawni hyn:

- cyhoeddwyd cod ymarfer a wnaed o dan Ran 2[2] y Ddeddf ar gyfer ymgynghoriad. Mae'r cod hwn yn berthnasol i awdurdodau lleol mewn perthynas â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o ran hyrwyddo canlyniadau llesiant;
- cyhoeddwyd cod ymarfer o dan Adran 145[3] ar gyfer ymgynghoriad. Mae'r cod hwn yn berthnasol i awdurdodau lleol mewn perthynas â mesur perfformiad eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol;
- cyhoeddwyd dogfen weithio y fframwaith canlyniadau cenedlaethol[4]. Mae'r

[1] http://llyw.cymru/topics/health/publications/socialcare/guidance1/services/?lang=cy
[2] http://llyw.cymru/consultations/healthsocialcare/part2/?lang=cy
[3] **Error! Hyperlink reference not valid.**

fframwaith hwn yn cynnwys y datganiad llesiant drafft[5] ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth ac fe'i cyhoeddwyd cyn cychwyn y Ddeddf ym mis Ebrill 2016. Mae'r datganiad hwn yn adeiladu ar y diffiniad o lesiant sydd yn y Ddeddf ac yn disgrifio'r canlyniadau llesiant pwysig y dylai pobl eu disgwyl er mwyn byw bywydau cyflawn; mae hyn yn rhan o'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol. (http://wales.gov.uk/docs/dhss/publications/140828wellbeingen.pdf).

Mae'r Ddeddf yn diffinio llesiant, sy'n cynnwys 'sicrhau hawliau a hawlogaethau'. I lawer o siaradwyr Cymraeg, ystyr sicrhau hawliau a hawlogaethau fydd gallu defnyddio'u hiaith er mwyn cyfathrebu a chyfranogi yn eu gofal fel partneriaid cyfartal. Felly, un o agweddau allweddol y datganiad llesiant yw a yw pobl yn cael gofal yn Gymraeg. Caiff hyn ei fesur yn y fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.

Mae fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg wedi cael ei ymgorffori yn y cod ymarfer ar gyfer Rhan 2 y Ddeddf; mae hyn yn cynnwys gofyniad i wasanaethau Cymraeg gael eu cynnwys yn y gwaith cynllunio a darparu a bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnig i siaradwyr Cymraeg heb fod angen gofyn am hynny.

Mae'r cod ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol (a wnaed o dan Adran 145) yn gosod fframwaith mesur perfformiad ar gyfer awdurdodau lleol; mae hyn yn cynnwys safonau ansawdd ar gyfer awdurdodau lleol mewn perthynas â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a mesurau perfformiad. Mae'r safonau ansawdd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â fframwaith 'Mwy na geiriau' Llywodraeth Cymru, neu mewn dewis ieithoedd eraill lle bo angen.

Canlyniadau / llwyddiant

Caiff llwyddiant ei fonitro yn ôl cyflawni canlyniadau llesiant, gan ddefnyddio'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol. Caiff mesurau canlyniadau eu nodi mewn perthynas â chyflawni'r canlyniadau yn y datganiad llesiant.

Mae'r datganiadau canlyniadau yn cynnwys a yw pobl yn derbyn gofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y mesurau canlyniadau yn dangos yr hyn sydd angen ei wneud i wella llesiant pobl yn hytrach na chanolbwyntio ar y prosesau o ran darparu gwasanaethau cymdeithasol.

Bydd y fframwaith perfformiad hwn yn dangos a yw pobl yn cael y cynnig rhagweithiol wrth dderbyn gofal a chymorth.

**Pa ddewisiadau polisi sydd wedi'u hystyried?**

[4] **Error! Hyperlink reference not valid.**
[5] **Error! Hyperlink reference not valid.**

| a<br>**Beth fydd yr effeithiau os *na* fydd y polisi'n cael ei weithredu?** |
|---|
| Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru yn amlinellu'r heriau y mae gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn eu hwynebu, a sut byddwn ni'n mynd i'r afael â'r heriau hyn, gan gynnwys datblygu rhaglen o bolisi a deddfwriaeth.<br><br>Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn pennu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yng Nghymru, ac yn gweithredu'r polisi a nodir yn y Papur Gwyn 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu'.<br><br>Mae'r polisi yn y ffrwd waith yn deillio o'r ddeddfwriaeth. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymrwymo i amserlen ddeddfwriaethol. Mae'r amserlen hon yn sicrhau y bydd yr holl is-ddeddfwriaeth ar waith erbyn mis Ebrill 2016. |
| **A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg - Iaith fyw: Iaith byw?** |
| Roedd Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal asesiad o effeithiau'r Ddeddf ar y Gymraeg mewn Memorandwm Esboniadol[6].<br><br>Datgelodd yr asesiad nad oedd yn debygol y byddai unrhyw effaith negyddol ar yr iaith, a chan fod y Ddeddf wedi'i chynllunio i greu system decach a mwy cyfartal i bawb sy'n gymwys i gael gofal a chymorth, bod mwy o gyfleoedd i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau.<br><br>Mae egwyddorion 'Mwy na geiriau: y Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol'[7] wedi cael eu hymgorffori yn y Ddeddf, sef bod yn rhaid i'r holl bobl a sefydliadau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol ystyried hawliau pobl i gyfathrebu yn Gymraeg.<br><br>Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn rhoi dyletswydd ar unrhyw bersonau sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf i geisio hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth, gan gynnwys dyletswydd i ystyried nodweddion, diwylliant a chredoau unigolion (gan gynnwys iaith).<br><br>Cyhoeddwyd datganiad llesiant drafft cyn cychwyn y Ddeddf sy'n amlinellu'r canlyniadau llesiant ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd |

[6] http://www.cynulliad.cymru/Laid%20Documents/PRI-LD9181-EM%20-%20Social%20Services%20and%20Well-being%20(Wales)%20Bill%20-%20Explanatory%20Memorandum-28012013-242600/pri-ld9181-em-e-Cymraeg.pdf
[7] http://wales.gov.uk/docs/dhss/publications/121121narrativeen.pdf

angen cymorth; mae hyn yn cynnwys a yw pobl yn cael gofal yn Gymraeg os ydynt angen hynny.

Mae'r cod ymarfer ar gyfer Rhan 2 yn datgan y dylai llesiant lywio swyddogaethau mwy eang a strategol yr awdurdodau lleol, fel darparu neu drefnu gwasanaethau ataliol o dan Adran 15 a chynnal asesiad o'r boblogaeth o dan Adran 14. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddefnyddio gwybodaeth am lesiant pobl a'r rhwystrau o ran hyrwyddo llesiant pobl i ddatblygu cynigion a llywio'r asesiad o'r boblogaeth.

Wrth hyrwyddo llesiant pobl, mae'n rhaid canolbwyntio ar oedi ac atal yr angen am ofal a chymorth fel nad yw anghenion pobl yn gwaethygu. Er mwyn cadw pobl yn byw'n annibynnol mor hir â phosibl, dylai awdurdodau lleol hyrwyddo llesiant wrth ddarparu gwasanaethau cyffredinol i bawb yn eu hardaloedd.

Mae'r cod ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol yn gosod fframwaith perfformiad ar gyfer awdurdodau lleol; mae hyn yn cynnwys safonau ansawdd mewn perthynas â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a mesurau perfformiad.

**Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar yr iaith Gymraeg yr ydych wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?**
h.y. siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg Gymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg?

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'i deddfwriaeth gysylltiedig mewn perthynas â'r hyn a gyflwynwyd o dan y Prosiect Gwella Newydd yn cynnig gofal a chymorth tecach a mwy cyfartal, ynghyd â mynediad atynt; bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith yn bennaf lle mae mwy o wasanaethau ar gael yn Gymraeg.

Mae Adran 6 y Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar bobl sy'n arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol i ystyried nodweddion, diwylliant a chredoau unigolion (gan gynnwys iaith). Mae hyn yn cryfhau hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg i wella llesiant pobl ac ansawdd gofal a chymorth.

Mae'r codau ymarfer o dan y prosiect hwn yn cynnwys y gofyniad i gynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â fframwaith strategol 'Mwy na geiriau' Llywodraeth Cymru.

Mae 'Mwy na geiriau', fframwaith strategol Llywodraeth Cymru, yn cydnabod y cysyniad o angen iaith. I lawer o siaradwyr Cymraeg, mae iaith yn elfen annatod o'u gofal, e.e. mae rhai pobl yn fregus a gall rhoi'r cyfrifoldeb iddynt am ofyn am wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg eu gwneud yn fwy pryderus. Cyfrifoldeb gwasanaethau cymdeithasol yw darparu gwasanaethau priodol sy'n diwallu anghenion iaith defnyddwyr; y 'Cynnig Rhagweithiol' yw'r enw am hyn yn 'Mwy na geiriau'.

| |
|---|
| **Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?** |
| Yn sgil y dyletswyddau yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), bydd goblygiadau i awdurdodau lleol a chyrff partner, gan gynnwys byrddau iechyd lleol, y trydydd sector a'r sector annibynnol, a phobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yng Nghymru.<br><br>Bydd yn rhaid i ddarparwyr gwasanaethau ddarparu gwasanaeth â mwy o ffocws sy'n briodol i bob unigolyn, gan gynnwys darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â'r cynnig rhagweithiol. Bydd y fframweithiau mesur perfformiad a chanlyniadau yn mesur effaith hyn.<br><br>Llywiwyd camau datblygu'r ffrwd waith drwy ymgysylltu â chynrychiolwyr Bwrdd yr Iaith Gymraeg, swyddogion polisi y Gymraeg yn Llywodraeth Cymru, a defnyddwyr a gofalwyr Cymraeg eu hiaith sy'n rhan o'r Panel Dinasyddion Gwasanaethau Cymdeithasol Cenedlaethol, sy'n rhoi llais i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr o ran trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.<br><br>Ar ben hyn, datblygwyd gwaith drwy'r Grŵp Llywio ac Ymgysylltu Strategol, oedd yn cynnwys aelodau o sefydliadau sy'n cynrychioli'r sectorau statudol, gwirfoddol a phreifat, a siaradwyr Cymraeg.<br><br>Mae'r gwaith ymgysylltu hwn wedi sicrhau bod anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael eu diwallu, a byddem yn disgwyl i grwpiau buddiant y Gymraeg ymateb yn ffafriol i'r cynigion.<br><br>Ar ben hyn, cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cod ymarfer yn Rhan 2 y Ddeddf, ac mae ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ar y cod ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol. |
| **Pan na chwblhawyd asesiad, neu pan na chanfuwyd effeithiau, nodwch gyfrif llawn at ddibenion cadw cofnod.** (Gellid defnyddio hwn yn y Tribiwnlys Iaith Gymraeg yn y dyfodol) |
| Dd/B |
| **Pa gamau gweithredu/gwaith pellach sydd wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?** e.e. gofynion data, angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu allanol â grwpiau Cymraeg, rhestri rhanddeiliaid neu ymgynghori, cysylltu ag Uned y Gymraeg am gyngor)? |
| Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar sut i ddatblygu'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol rhwng mis Tachwedd 2012 a mis Chwefror 2013, a chafwyd ymatebion gan ystod eang o sefydliadau, gan gynnwys Comisiynydd |

y Gymraeg.

Defnyddiwyd adborth o’r ymgynghoriad cyhoeddus i ddatblygu’r fframweithiau mesur perfformiad a chanlyniadau. Mae ymgynghoriadau pellach ar y gwaith hwn ar y gweill (gweler cyfnod 2 ar ymgynghoriadau pellach).

## CAM 2 – NODI AC ASESU EFFEITHIAU

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith**

**Crynhowch yr asesiad manwl a gynhaliwyd ynghyd â'r sgoriau a ddynodwyd.**

**Effeithiau cadarnhaol:**

Bydd y rhaglen waith yn cynnig yr effeithiau cadarnhaol canlynol:

- mwy o ymwybyddiaeth o strategaeth ‘Mwy na geiriau’ a mwy o ddefnydd ac argaeledd o wasanaethau gofal a chymorth Cymraeg (cynnydd yn y cynnig rhagweithiol a defnydd o’r cynnig rhagweithiol lle mae ei eisiau). Bydd hyn yn rhoi mwy o reolaeth a mewnbwn i bobl ar y gwasanaethau y mae eu hangen i’w galluogi i sicrhau canlyniadau llesiant gwell;
- dylai wella sgiliau Cymraeg staff a gyflogir mewn gwasanaethau gofal a chymorth drwy roi mwy o hyder iddynt ddefnyddio’u sgiliau;
- gall gynyddu nifer y staff Cymraeg eu hiaith sydd eisiau gweithio yn y gweithlu gofal cymdeithasol drwy ganiatáu iddynt ddefnyddio’u dewis iaith;
- hefyd mae potensial i hyn gadw staff penodedig mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith.

**Effeithiau negyddol:**

Gallai’r rhaglen waith gynnig yr effeithiau negyddol canlynol:

- efallai na fydd digon o staff Cymraeg eu hiaith i fodloni’r galw am ofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg, a fyddai yn ei dro yn rhoi mwy o alw ar y gweithlu presennol Cymraeg ei iaith i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg;
- efallai na fydd sgiliau Cymraeg staff gofal a chymorth ar lefel ddigonol i gynnig gwasanaeth llawn drwy gyfrwng y Gymraeg; gallai hyn arwain at fwy o anghenion hyfforddiant i staff Cymraeg eu hiaith;
- efallai na fydd rhai staff yn ddigon hyderus yn eu sgiliau iaith.

**Cyfleoedd i hyrwyddo’r Gymraeg e.e. statws, y defnydd o wasanaethau Cymraeg, y defnydd o’r Gymraeg o ddydd i ddydd, y defnydd o’r Gymraeg yn y gweithle?**

Bydd y rhaglen waith yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo’r Gymraeg:

- bydd cynnig rhagweithiol a gwasanaethau proffesiynol di-dor yn annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio’r Gymraeg yn effeithiol ac yn rhoi dyletswydd ar ddarparwyr i wneud mwy i ystyried defnyddwyr a’u hanghenion, a darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn hytrach nag aros i rywun ofyn iddynt wneud hynny;
- caiff cyfleoedd eu hyrwyddo i blant a phobl ifanc ddefnyddio’r Gymraeg a dylai sicrhau agwedd gadarnhaol at y Gymraeg;
- caiff siaradwyr Cymraeg eu hannog i ddychwelyd neu aros mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith;
- annog pobl (gan gynnwys staff) i wella’u sgiliau Cymraeg yn barhaus, a fydd yn gwella hyder a defnydd wrth dderbyn gofal a chymorth beunyddiol yn Gymraeg;
- cyfrannu tuag at amcanion polisi ‘Iaith ‘Fyw: Iaith Byw’ a chynyddu nifer neu ganran siaradwyr Cymraeg a chynyddu defnydd y Gymraeg;
- gwneud siaradwyr Cymraeg a’r gwasanaethau sydd ar gael iddynt yn fwy amlwg;
- gwella sgiliau siaradwyr a dysgwyr Cymraeg fel eu bod yn defnyddio’r Gymraeg yn fwy yn y gwaith/yn broffesiynol.

**Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd, gan gynnwys proffil demograffig, wrth ystyried yr effeithiau:**

Yn 2011, cyhoeddodd Bwrdd yr Iaith adroddiad “Y Gymraeg a Gwasanaethau Cymdeithasol” yn amlinellu’r hyn sy’n digwydd os nad yw pobl yn derbyn gofal yn eu dewis iaith. Nododd yr adroddiad “ceir tystiolaeth fyd eang yn dangos effaith niweidiol rhwystrau iaith ym maes gwasanaethau cymdeithasol – diffyg mynediad i wasanaethau cymdeithasol; bodlonrwydd y defnyddiwr; diffyg perthynas therapiwtig; anawsterau cael cydsyniad â’r gofal; problemau dilyniant gofal wrth i’r defnyddiwr gael ei gyfeirio o un asiantaeth i’r llall; diffyg ansawdd y gofal; diogelwch y defnyddiwr; statws iechyd y defnyddiwr; costau’r gofal – costau personol i’r defnyddiwr a chostau ariannol i’r gwasanaeth”.

Cyhoeddwyd adroddiad “Profiad Siaradwyr Cymraeg o’r Gwasanaethau Iechyd a Gofal” gan IAITH yn 2012. Fe’i lluniwyd ar ran yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, Llywodraeth Cymru a Chyngor Gofal Cymru. Drwy ganolbwyntio ar brofiad defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn y pedwar grŵp blaenoriaeth (plant, pobl hŷn, defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys y rheini â dementia, a phobl ag anableddau dysgu), cadarnhaodd yr ymchwil y cysylltiad rhwng iaith a gofal.

Mae’n tynnu ar enghreifftiau sy’n awgrymu y gall methu â chyfathrebu yn iaith gyntaf

defnyddwyr agored i niwed beryglu ansawdd y gofal a roddir iddynt. Hefyd mae'n ymdrin â rôl hanfodol iaith fel dull asesu a diagnosteg, a bernir bod y ddibyniaeth ar gyfieithu a defnyddio aelodau o'r teulu i gyfleu gwybodaeth rhwng defnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol yn llawn problemau a allai effeithio ar y natur y gwaith asesu a gynhelir. I ddefnyddwyr a gofalwyr, bernir bod gallu defnyddio eu dewis iaith yn effeithio ar feithrin cysylltiadau clinigol a therapiwtig.

Hefyd, canfu'r ymchwil fod ymatebwyr yn teimlo bod y ddarpariaeth o wasanaethau cyfrwng Cymraeg yn anghyson a phrin yn cael eu cynllunio mewn sawl ardal. Nid yw aelodau unigol o staff ar sawl lefel yn ddigon hyderus i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg mewn cyd-destun proffesiynol; efallai nad yw asiantaethau cyflogi yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r sgiliau hyn, ac efallai na fyddai sgiliau iaith unigolyn yn cael eu defnyddio o ganlyniad. Ymddengys bod y diwylliant sy'n drech yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn seiliedig ar y disgwyliad y bydd defnyddwyr gwasanaethau neu ofalwyr yn nodi'r angen ac yn creu'r galw am wasanaethau cyfrwng Cymraeg, yn hytrach na bod dyletswydd ar ddarparwyr gwasanaethau i gynnig a darparu. I lawer o'r unigolion agored i niwed a heb rym yn y grwpiau blaenoriaeth a holwyd yn yr ymchwil, mae mynegi eu hangen a chreu galw y tu hwnt iddynt. Maent yn aml yn ddibynnol ar ofalwyr a'u teuluoedd i wneud hyn ar eu cyfer. Nid oes gan lawer ohonynt gymorth o'r fath. Felly, mae angen bod gwasanaethau a systemau sylfaenol trylwyr a dibynadwy ar gael i'r defnyddwyr mwyaf agored i niwed ac ynysedig er mwyn adnabod eu hanghenion iaith ac ymateb yn briodol. Mae angen gwneud hyn er mwyn parchu urddas unigolion.

Mae adroddiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg hefyd yn cyflwyno tystiolaeth o'r ymchwil a wnaed gan Llais Defnyddwyr Cymru yn 2010, "Gwasaniaithau: Defnyddwyr a'r Iaith Gymraeg". Mae'n datgan:

"Yn olaf, gan edrych ar ymchwil mewn perthynas â defnyddwyr, cynhaliodd Llais Defnyddwyr Cymru arolwg o safbwynt siaradwyr Cymraeg yn 2010. Holwyd sampl o 759 o siaradwyr Cymraeg am eu barn ar wasanaethau Cymraeg. Wrth drafod y defnydd o'r Gymraeg, dywedodd dros chwarter nad oedd gwasanaethau Cymraeg ar gael: "Pan ofynnwyd iddynt sut y gellid gwella gwasanaethau cyfredol, yr awgrym mwyaf yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat oedd sicrhau bod mwy o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael. Dywedodd 28% o'r holl ymatebwyr mai dyma oedd y rheswm nad oeddent yn defnyddio'r Gymraeg fwy wrth ymdrin â'r sector cyhoeddus". O'r gwaith ansoddol a wnaed fel rhan o'r ymchwil hon, canfuwyd hefyd na chynigiwyd gwasanaeth cyfrwng Cymraeg."

Mae 'Mwy na geiriau' yn cydnabod bod cyfrifoldeb ar wasanaethau cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau priodol sy'n diwallu anghenion iaith defnyddwyr; caiff hyn ei ddiffinio fel y "cynnig rhagweithiol". Mae'r ddeddfwriaeth, y fframwaith canlyniadau cenedlaethol a'r fframwaith mesur perfformiad yn sicrhau bod y 'cynnig rhagweithiol'

yn rhan annatod o wella canlyniadau llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth.

Mae'r sylfaen dystiolaeth bresennol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn disgrifio proses; prin yw'r dystiolaeth am effaith gwasanaethau cymdeithasol ar fywydau pobl ac a yw'r gwasanaeth yn gwella canlyniadau i bobl. Felly, mae bwlch sylweddol yn y dystiolaeth ac mae hyn yn cefnogi sut rydym yn datblygu fframwaith canlyniadau sy'n mesur effeithiolrwydd gwasanaethau.

Bydd y gwaith datblygu yn cynnwys mesurau i fonitro a yw pobl yn derbyn gofal a chymorth yn Gymraeg ac a yw pobl yn cyfathrebu yn Gymraeg yn fwy helaeth gyda staff iechyd neu ofal cymdeithasol.

| | |
|---|---|
| **Beth yw'r effaith gyffredinol debygol ar yr iaith Gymraeg os bydd y polisi hwn yn cael ei ddatblygu?** | Cadarnhaol: ☒<br>Negyddol: ☐<br>Niwtral: ☐<br>Anhysbys: ☐ |

| | | |
|---|---|---|
| **Penderfyniad yn dilyn yr Asesiad** | 1. Dim newid sylweddol | ☒ |
| | 2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau | ☐ |
| | 3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru | ☐ |
| | 4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno | ☐ |

***Os ydych wedi ateb 2, 3 neu 4 uchod,* atebwch y canlynol:**
**Sut y byddwch chi'n ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau i'r Gymraeg? Manylion am fesurau lliniaru/pwyntiau gweithredu/dewisiadau amgen sydd wedi'u mabwysiadu er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol:**

Dd/B

**Os ydych yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau ydych yn dymuno gofyn i randdeiliaid am yr Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg?**

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Tachwedd 2014 a mis Chwefror 2015 ar roi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith.

Roedd yn canolbwyntio ar y rheoliadau a'r cod ymarfer mewn perthynas â Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) y Ddeddf. Mae pennod 1 y cod ymarfer yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo llesiant a dyletswyddau cyffredinol eraill wrth arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o dan y Ddeddf.

Cynhelir ymgynghoriad rhwng mis Chwefror 2015 a mis Ebrill 2015 ar y cod ymarfer

| |
|---|
| mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol. Datblygwyd y cod ymarfer er mwyn helpu awdurdodau lleol a'u partneriaid i gyflawni eu rhwymedigaethau mewn perthynas â mesur llesiant o dan Ran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf").<br><br>Mae cwestiwn yn y ddau ymgynghoriad i ddechrau deall a fydd y cynigion yn y ddau god yn effeithio ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig; disgwylir y bydd rhanddeiliaid â buddiant yn y Gymraeg yn defnyddio hyn i roi eu hadborth. |
| **CAM 3: CAMAU AR ÔL YMGYNGHORI A PHARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO** |
| **Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau ydych wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn ymwneud â'r Gymraeg?** |
| |
| **Sut byddwch yn monitro'r effeithiau parhaus wrth weithredu'r polisi?** |
| |
| **Amlinellwch sut byddwch yn parhau i nodi'r effeithiau wrth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol?** |
| |
| **Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau parhaus gwerthusiadau, effeithiau sy'n dod i'r amlwg** |
| |

**4. Datganiad**

| |
|---|
| **Arweinydd polisi:**<br><br>***Dileer fel y bo'n briodol*:**<br><br>***Mae'r polisi hwn / ~~Nid yw'r polisi hwn~~ yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. Pan** |

| |
|---|
| **ganfuwyd effeithiau negyddol neu gyfleoedd a gollwyd, mae'r diwygiadau a'r camau priodol wedi eu rhoi ar waith.** |
| Enw: |
| |
| Adran: |
| |
| Dyddiad(au): |
| |
| Llofnod: |
| |
| Dyddiadau adolygu: |

| **ARDYSTIAD AC ADOLYGIAD YR UWCH SWYDDOG CYFRIFOL** | |
|---|---|
| Rwyf yn fodlon bod yr Asesiad o Effaith ar y Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect yn y cam hwn o'r datblygiad. Trwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael y sylw priodol. Byddaf yn ail-asesu'r rhaglen/prosiect ar adegau allweddol trwy oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys adolygiadau polisi. | |
| Llofnodwyd<br>(Uwch Berchennog Cyfrifol) | Dyddiad |
| | |
| Llofnodwyd<br>(Uwch Berchennog Cyfrifol) | Dyddiad adolygu |
| Llofnodwyd<br>(Uwch Berchennog Cyfrifol) | Dyddiad adolygu |
| Llofnodwyd<br>(Uwch Berchennog Cyfrifol) | Dyddiad adolygu |